

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n fwriad gennym i gynnal diwrnod pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ar yr 14eg o Orffennaf, 2020. Fe fydd y disgyblion yn cael blas ar wersi ym Mryn Tawe ac yn cael cyfle i gwrdd â'u tiwtor dosbarth.

A wnewch chi ollwng eich plentyn yn Ysgol Bryn Tawe, wrth y brif gatiâu ar yr amser penodol a nodir isod os gwelch yn dda? Am resymau diogelwch, gofynnwn yn garedig i chi beidio a chyrraedd cyn yr amser penodedig, ac i chi adael yn syth, am ein bod eisiau cyfyngu ar y nifer o geir a disgyblion sy'n cyrraedd ar yr un pryd. Fe fyddwch hefyd yn casglu'r plant ar amser penodol ac mewn man penodol, gweler isod am fwy o fanylion. Fe fydd staff yno i'ch tywys chi a'r disgyblion i'r manau cywir.

Fe fydd y disgyblion yn golchi eu dwylo yn syth wedi cyrraedd yn ein labordai ac fe fydd disgwyl i ddisgyblion ddilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol a chadw dwy fetr oddi wrth ei gilydd bob amser. **Fe fydd angen i bob disgybl ddod â brechdanau i'w bwyta amser cinio os gwelch yn dda, ni fydd ffreutur yr ysgol ar agor.** A wnewch chi lenwi'r holiadur er mwyn rhoi caniatad i'ch plentyn fynychu erbyn 6/7/20, linc isod:

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k4Xi0oljCzdIo87tDJVKj3BU M0E1MIE1RVBIOTFPVFhDNIYyVDVFukQ1Ni4u

Edrychwn ymlaen at groesawu Bl 6 unwaith eto.

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs Angharad Stephens (Cydlynnydd pontio)

Trefniadau Gollwng Disgyblion

Gollyngwch eich plentyn wrth brif gatiâu'r ysgol ar yr amseroedd yma os gwelch yn dda:

Tirdeunaw - 9:15yb

Gellionnen a Tan y Lan - 9:30yb

Lon Las, Y Cwm a Bryn y Môr - 9:45yb

Trefniadau Casglu Disgyblion

Gofynnwn yn garedig i chi i aros yn eich ceir ac fe fydd y disgyblion yn dod atoch chi:

Tirdeunaw (Buarth Blaen, parciwch ar fuarth top yr ysgol) 1:40yh

Gellionnen (Ffreutur/ Parciwch ym maes parcio'r Ganolfan Hamdden) 1:40yh

Lonlas (Ffreutur/ Parciwch ym maes parcio'r Ganolfan Hamdden) 2:00yh

Tan y Lan, Y Cwm a Bryn y Môr (Buarth Blaen, parciwch ar fuarth top yr ysgol) 2:00yh

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

25.6.20

Dear Parent / Guardian,

We intend to hold a transition day for Year 6 pupils on the 14th of July, 2020. Pupils will get a taste of lessons at Bryn Tawe and will meet their form teacher.

Please could you drop your child off at Bryn Tawe, by the main gates at the time stated below? For safety reasons, we kindly ask you not to arrive before the allotted time and we ask that you leave promptly, in order to reduce the number of pupils and cars arriving at the same time. We also ask that you collect your child at a specific time, please see below for further details. Staff will be present on your arrival in order to direct you and the pupils to the correct places.

Pupils will wash their hands on arrival in the Science laboratories and all pupils will be expected to observe social distancing rules and stay two meters apart at all times. **All pupils will need to bring a packed lunch please, as the school canteen will be closed.** Please fill in the questionnaire in order to give permission for your child to attend the transition day by 6.7.20, link below:

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k4Xi0oljCzdIo87tDJVKj3BU M0E1MIE1RVBIOTFPVFhDNIYyVDVFUKQ1Ni4u

We look forward to welcoming your child to Bryn Tawe once again,

Yours faithfully,

Mrs Angharad Stephens (Transition Co-ordinator)

Drop-off Arrangements

Please drop pupils off at main school gates at the following times:

Tirdeunaw - 9:15a.m

Gellionnen and Tan y Lan - 9:30a.m

Lonlas, Y Cwm and Bryn y Môr - 9:45a.m

Collection Arrangements

We kindly ask that you stay in your car and pupils will come to you:

Tirdeunaw (Front yard, please park on the top yard) 1:40pm

Gellionnen (Canteen, please park in the Lesiure Centre's car park) 1:40pm

Lonlas (Canteen, please park in the Lesiure Centre's car park) 2:00pm

Tan y Lan, Y Cwm a Bryn y Môr (Front yard, please park on the top yard) 2:00pm

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU

Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies